**TREF YN MYND yn wyllt am gefn gwlad mewn digwyddiad arbennig.**

Cymerodd ugeiniau o deuluoedd ran ym Mhenwythnos Gwyllt y Rhyl, a drefnwyd gan Gyngor Tref y Rhyl, Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych a Chymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych.

Gan gynnwys Pwll Cae Brics, y Cỳt, Marsh Tracks, Glan Morfa, Cae Chwarae Antur y Rhyl, a'r harbwr, rhoddodd y diwrnod gyfle i deuluoedd grwydro cefn gwlad y dref a roi cynnig ar amrediad eang o weithgareddau am ddim.

Hefyd yn y digwyddiad, agorwyd yn swyddogol dŷ crwn Oes Haearn Marsh Road gydag ailberfformiadau hanesyddol a sinema awyr agored.

Meddai Maer Rhyl, y Cynghorydd Sarah Roberts: "Cafodd y Rhyl ddiwrnod gwyllt go iawn gyda digon o weithgareddau i bobl roi cynnig arnynt, gan roi cyfle i deuluoedd grwydro rhannau gwahanol o'r dref. Roeddem eisiau arddangos cefn gwlad a rhoi cyfle i bobl roi cynnig ar rywbeth newydd. Roedd cymaint o bartneriaid wedi helpu i wneud y digwyddiad yn llwyddiant, a hoffai'r cyngor tref ddiolch iddynt am eu gwaith caled."

Roedd digon o weithgareddau ar gael ar y dydd, gan gynnwys beicio, pysgota gyda Chymdeithas Bysgota Cỳt y Rhyl, crefftau cefn gwlad, plygu gwrych, gweithdy drymio, peintio wynebau, crefftau'r goedlan, teithiau tywys a gwneud blychau adar. Cafwyd taith ystlumod gyda'r nos hefyd.

Meddai Garry Davies, Swyddog Cefn Gwlad (y Gogledd) gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych: "Roedd y digwyddiad yn cael ei gynnal dros ardal eang gyda rhywbeth i'w wneud ym mhobman. Gobeithio y bydd pobl wedi cael hyd i hobi newydd, ardal newydd i'w chrwydro, neu weithgaredd gwahanol i'w fwynhau o ganlyniad i'r Penwythnos Gwyllt."

**Diwedd** **17 Medi 2016**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications